Canllaw Rhaglennu V 1.1

Manylebau

Amledd Gweithredu	869.2125 MHz
Maint	H90 x Ll90 x D58 mm
Cyflenwad Pŵer	Batri lithiwm wedi'i selio
Bywyd batri trosglwyddydd	Hyd at 5 mlynedd
Bywyd y ddyfais	10 blynedd
Pellter gweithio	Hyd at 600m
Cydymffurfio	CE / RoHS 2 / RED
Gwarant	24 mis

Batris / Bywyd y Larwm

Mae'r larwm gwres yn cynnwys batri lithiem nad ellir newid gan y defnyddwyr, ddylai para hyd at 10 mlynedd, yn dibynnu ar ddefnyddiad a'r amgylchedd mae o wedi eu lleoli. Mi fydd cyfnodau estynedig yn fodd larwm yn lleihau bywyd y batri yn sylweddol. Os fydd yna fatri isel, mi fydd y batri yn larymau pob 60 eiliad. Pan fydd batri'r larwm gwres yn isel, mi ddylai'r uned gyflawn cael eu disodli.

Mae'r larwm gwres efo bywyd batri sefydlog o 10 mlynedd sydd wedi eu nodi gyda'r dyddiad sydd wedi eu hargraffu ar ochr y larwm. Mae rhaid amnewid y larwm erbyn y dyddiad hwn.

Mae'r trosglwyddydd radio o fewn y patres yn cynnwys batri lithiem 3V na ellir newid gan y defnyddwyr. Fel arfer, mi fydd y batri yn parhau hyd at 5 mlynedd yn dibynnu ar eu defnydd. Pan mae'r batri yn dod i ben i fywyd, mae rhaid newid y trosglwyddydd yn gyflawn. Mae'r argymell i amnewid yr holl larwm gwres.

Pacio ar gyfer cludo

Rhaid i'r offer sy'n cynnwys celloedd neu fatris gael eu pacio mewn pecynnau anhyblyg cryf a rhaid eu sicrhau rhag symud o fewn y deunydd pacio allanol i atal actifadu damweiniol. Rhaid i enw a chyfeiriad yr anfonwr fod yn weladwy yn glir ar y pecyn allanol.

Diogelwch

Peidiwch â datgymalu na newid yr uned. Peidiwch ag agor y casin. Defnyddiwch o dan do mewn lleoliad sych yn unig.

Gwarchodaeth

Dylid cael gwared ar yr holl wastraff electronig yn unol â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf.

Rhaid ei waredu o fewn y llif gwastraff trydanol ac electronig a pheidio â chael gwared arno yn y llif gwastraff arferol. Mae ailgylchu cynhyrchion gwastraff trydanol yn helpu i warchod adnoddau naturiol ac atal effeithiau andwyol ar yr amgylchedd. Cysylltwch â'ch cyflenwr os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch.

Datganiad Cydymffurfiaeth:

Trwy hyn, mae Cair (UK) Ltd yn datgan bod y math o offer radio, Cair Heat+ yn cydymffurfio â Chyfarwyddeb 2014/53/EU

Cair (UK)
Hanson Lane, Halifax, West Yorkshire, HX1 4SD
T: 01422 399 155 **E**: sales@we-cair.com **W**: www.we-cair.com

Technoleg Glyfar, Gwnaethpwyd i Ofalu

Heat+

Larwm Gwres Gydgysylltiedig

Canllaw Rhaglennu V 1.0

Mae'r Heat+ yn uned ddisylw, gryno sydd wedi eu dylunio yn benodol i sefyllfaoedd na fysa larwm mwg yn addas, fel cegin, garej ac ardaloedd llychlyd.

Mae'n hawdd i'w rhaglennu i synwyryddion Smoke+ a Heat+ eraill, yn sicrhau fod bod dyfais gysylltiedig yn rhybuddio pan fydd angen.

Canllaw Rhaglennu V 1.1

Mae'r larwm gwres yn uned ddisylw, gryno sydd wedi eu dylunio yn benodol i sefyllfaoedd na fysa larwm mwg yn addas, fel cegin, garej ac ardaloedd llychlyd. Pan fydd yn actifadu, mi fydd yna rhybudd clywadwy uchel a fydd neges radio yn cael eu gyrru i'r ddyfais derbyn larwm. Mae'r Heat+ yn larwm mwg gydgysylltiedig, fedrith cysylltu efo unedau Heat+ neu Smoke+ arall, fel bod pob un yn codi larwm os mae un o'r dyfeisiau yn actifadu. Mi fydd y canllaw hwn yn disgrifio sut i gysylltu ag datgysylltu'r dyfeisiau. **Nodyn:** Mae'r canllaw yma yn atodol i lawlyfr y gwneuthurwr. Sicrhewch eich bod yn darllen y ddwy ddogfen cyn gosod a defnyddio'r larwm CO.

Troi Ymlaen



I ddechrau, dadbacio'r uned â gwahanu'r synhwyrydd o'r plât mowntio. Troi Swîts 1 ar y PCB i'r gosodiad 'ON' (gwelwch y llun). Mi fydd yr LEDs yn fflachio yn goch ag oren yn sydyn. Gellir defnyddio dau ddull i ryng-gysylltu dyfeisiau. **Tip:** Ellir defnyddio offeryn addas fel pen pin/gefel fach i newid gosodiad y swîts.

Rhyng-gysylltu Dyfeisiau - Dull PCB

Gosodwch y dyfeisiau Heat+ a Smoke+ i'w baru yn agos i'w gilydd, o fewn 0.3m. I baru'r dyfeisiau, pwyswch Swîts 2 ar y PCB ar un o'r dyfeisiau i'w baru. Mi fydd y LED coch yn fflachio yn sydyn ar bob dyfais. Mi fydd y dyfeisiau wedi eu paru pan fydd yr LEDs yn stopio fflachio ar bob uned; fedrith hyn cymryd hyd at funud dibynnu ar nifer o ddyfeisiau sydd yn cael eu pario. Gellir nawr gosod y synwyryddion a'u gosod i'r plât mowntio. Gwnewch yn siŵr bod y tab ar bob dyfais yn cael ei wthio i mewn yn llawn ac wedyn troi i gwblhau'r cysylltiad.

Rhyng-gysylltu Dyfeisiau - Dull Uned

I baru, gosodwch y synwyryddion i'w platiau mowntio. Gwnewch yn siŵr bod y tab ar bob dyfais yn cael ei wthio i mewn yn llawn ac wedyn troi i gwblhau'r cysylltiad. Pwyswch y botwm 'Test' ar unrhyw un o'r dyfeisiau a bydd y synhwyrydd yn allyrru cyfres o gliciau. Pan fydd yr holl gliciau yn dod i ben mae'r dyfeisiau wedi'u paru; gall hyn gymryd hyd at 2 funud.

Profwch y Paru

I brofi'r paru, pwysych y botwm 'Test' ar unrhyw ddyfais Heat+ neu Smoke+ sydd wedi eu cysylltu. Mi fydd 3 bîp ar yr uned ac wedyn fydd yn ddistaw. Mi fydd pob dyfais arall yn swnio tan fydd y prawf wedi dod i ben. I stopio'r prawf, pwyswch y botwm 'Test' ar unrhyw Heat/Smoke+. bydd yr unedau yn allyrru cyfres o gliciau. Pan mae'r clicio'n dod i ben, mae'r prawf wedi gorffen.
Pwysig: Yn ystod profion rheolaidd ar y Heat+ a dyfeisiau sydd wedi paru, ni fydd y synwyryddion yn ymatebol i wres corfforol am hyd at 2 funud ac yna am 45 eiliad arall ar ôl i'r prawf wedi ei gwblhau. Os yw gwres gwirioneddol wedi codi larwm ac mae'r botwm 'hush' wedi'i bwyso, ni fydd y Heat+ yn sensitif i wres am hyd at 10 munud.

Paru Dyfeisiau Ychwanegol

I baru Heat+ neu Smoke+ arall, rhowch y ddyfais newydd yn agos at unrhyw ddyfais sydd wedi'i gosod yn barod a throi Swîts 1 ar y PCB i osodiad 'ON'. Pwyswch y botwm 'Test' ar ddyfais sydd wedi paru. Bydd yr holl ddyfeisiau yn y grŵp pâr yn seinio nawr. Mae'r ddyfais newydd yn cael ei baru pan fydd y LED goch yn stopio fflachio.

Datgysylltu Dyfais

I ddatgysylltu dyfais, rhowch Swîts 1 i'r gosodiad 'OFF'. Nawr, pwyswch a dal lawr Swîts 2. Wrth dal i bwyso lawr ar Swîts 2, rhowch Swîts 1 yn ôl i'r gosodiad 'ON' ac wedyn rhyddhau. Mi fydd y LED yn fflachio ac wedyn ni fydd y dyfeisiau wedi paru.
Nodyn: Sicrhewch fod hyn yn cael eu neud ar gyfer pob dyfais yr ydych eisiau datgysylltu

Aseinio Dyfais

Pan fydd pob dyfais wedi paru fel bod angen, rydych nawr yn barod i aseinio a gosod y dyfeisiau Heat+ a Smoke+. I aseinio'r ddyfais i uned Teleofal, pwyswch y botwm 'Test' pan fydd yr uned derbyn mewn modd cofrestru.
Pwysig: Mae rhaid rhaglennu pob dyfais unigol i'r uned Teleofal fesul un

Newid y Protocol

Mae'r Heat+ yn ddyfais rhyngweithredol gyda dau brotocol radio yn adeiledig: Tunstall a TeleAlarm. I wirio'r protocol sydd wedi eu rhaglennu, sicrhewch fod Swîts 1 yn osodiad 'ON' a phwyswch Swîts 3. Mae 2 fflach yn dynodi fod o wedi rhaglennu i brotocol TeleAlarm, tra mae tair fflach yn dynodi fod o wedi rhaglennu i brotocol Tunstall.

I newid y protocol, rhowch Swîts 1 i'r gosodiad 'OFF'. Pwyswch Swîts 2 a Swîts 3 yn gydamserol. Troi Swîts 1 i'r gosodiad 'ON' wedyn rhyddhau Swîts 2 a Swîts 3. Mi fydd y LED yn fflachio unwaith i gadarnhau fod y protocol wedi newid. Pwyswch Swîts 3 i gadarnhau fod y protocol wedi newid, wedi dynodi gan 3 fflach i TeleAlarm a 3 i Tunstall.

Lleoli a Gosod

Mae'r adran yma yn cynnwys manylion cyffredinol er mwyn lleoli'r larwm. Cyfeiriwch at lawlyfr y gwneuthurwr wedi eu cynnwys efo'r larwm am fanylion llawn ar sut i leoli yn gywir. Mi ddylai'r larwm gwres cael eu mowntio ar y nenfwd yn ganol yr ystafell, o leiaf 300mm i ffwrdd o waliau, gosodiadau golau, drysau, ffenestri, fentiau ac ystafelloedd ymolchi / cawod. Sicrhewch fod y lleoliad a ddewisir hefyd o fewn pellter gweithio'r ddyfais derbyn larwm ag unrhyw ddyfais gysylltiedig. Mi ellir gosod y petris yn ddiogel i'r nenfwd drwy ddefnyddio'r gosodiadau caeedig. Unwaith mae'r petris wedi eu mowntio, mi ddylai'r wifren o'r larwm gwres cael eu plygio i mewn i'r rhyngwyneb radio a sicrhau fod y plwg wedi'i gyfeirio'n gywir a chlywir clic. **Nodyn:** Peidiwch â gosod y larwm gwres ar wal. I gydosod y larwm gwres i'r petris, alinio'r tag cloi ar y petris gyda'r slot ar y larwm gwres a throwch y larwm gwres yn glocwedd tan glywir clic. Mi fydd y weithred yma hefyd troi'r larwm gwres ymlaen. Mi all nawr actifadu'r larwm gwres drwy ddefnyddio'r botwm profi ar blaen yr uned i sicrhau eu bod yn gweithio yn gywir a bod y trosglwyddydd radio yn gweithredu. I dynnu'r larwm gwres oddi ar y petris, dad-wasgu y tag cloi a throwch yr uned wrthglocwedd. Mi fydd y weithred hon yn diffodd y larwm gwres.

Cysylltu'r Heat+ i'r Notifier neu system dderbyn arall

1. Sicrhewch fod Swîts 1 wedi trio ymlaen
2. Gosodwch y Heat+i'r plât mowntio
3. Paratowch yr Notifier / system arall wrth ei rhoi yn fodd cofrestru
4. Actifadu'r Heat+
5. Dylai'r Notifier / system arall gydnabod y ddyfais newydd

Arwyddion Statws

Mae'r larwm gwres efo seinydd a dangosydd LED goch ellir gweld ar du blaen yr uned. Mae'r LED sydd yn fflachio ac/neu'r bîp cysylltiedig yn nodi'r amodau canlynol:

- **Pŵer -** Un fflach bob munud efo dim bîp yn cadarnhau fod yr uned wedi eu pweru yn gywir
- **Batri isel -** Un fflach bob munud efo un bîp yn nodi batri isel
- **Botwm profi wedi jamio -** Bîp sengl bob 11 eiliad yn nodi fod y botwm prof yn sownd
- **Nam -** Bîp dwbl bob munud yn nodi nam neu gamweithio
- **Prawf -** Fflachio o'r LED sydd yn ailadrodd a chyfres sengl o 3 bîp
- **Larwm -** Fflachio o'r LED bob eiliad sydd yn ailadrodd a chyfres o 3 bîp sydd yn swnio bob 4 eiliad
- **Larwm wedi eu distawi -** Fflach fer bob 12 eiliad sydd yn dangos fod y larwm wedi cael eu distewi

Cair (UK)
Hanson Lane, Halifax, West Yorkshire, HX1 4SD
T: 01422 399 155 **E**: sales@we-cair.com **W**: www.we-cair.com

Canllaw Rhaglennu V 1.1

Profi

Mi ddylai profi digwydd bob wythnos i sicrhau gweithrediad cywir, ag i sicrhau fod y cysylltiad i'r ddyfais derbyn larwm dal i weithio. Mi ellir cynnal prawf wrth bwyso a dal y botwm profi am ychydig o eiliadau. Mi ddylai'r larwm swnio tair gwaith efo LED yn fflachio ac mi ddylai'r trosglwyddydd radio actifadu. **Nodyn:** Mae'r botwm profi electronig yn darparu prawf llawn o ymarferoldeb y larwm. Peidiwch â thrio profi'r uned yn defnyddio nwy, mwg neu fflam noeth neu bydd hyn yn creu difrod.

Distwei

Mi ellir distewi'r larwm gwres wrth bwyso'r botwm profiyn sydyn. Mae hyn yn ddelfrydol ar gyfer sefyllfaoedd di-argyfwng le mae larwm diangen wedi eu codi. Mi fydd yr LED goch yn fflachio bob 12 eiliad i atgoffa chi fod y larwm gwres wedi cael eu distewi ac mi fydd yn ail osod i fodd 'quiescent' ar ôl 10 munud. Mi ellir hefyd distewi rhybuddion batri isel. Gan fod rhybuddion batri isel yn gallu codi yn ystod y nos, mi ellir distewi'r rhybudd clywadwy dros dro am 10 awr drwy bwyso'r botwm distewi yn sydyn.

Glanhau

Mi ddylai glanhau'r larwm gwres yn aml i sicrhau eu bod yn gweithio yn gywir. Mi ellir glanhau'r petris efo cadach llaith. Peidiwch â defnyddio deunyddiau sgraffiniol, cynhyrchion glanhau cemegol neu unrhyw hylif arall i lanhau'r petris gan maent yn achosi difrod i'r uned. Osgoi defnyddio cynhyrchion glanhau erosol, gallai hyn creu larwm diangen. Rydym yn cynghori defnyddio sugnwr llwch efo brwsh meddal i dynnu llwch, a bydd hyn yn helpu'r uned i weithio'n effeithlon ag osgoi larymau diangen mewn amgylcheddau llychlyd.

Cair (UK)
Hanson Lane, Halifax, West Yorkshire, HX1 4SD
T: 01422 399 155 **E**: sales@we-cair.com **W**: www.we-cair.com